

**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL
CAERDYDD A BRO MORGANNWG
Cofnodion Cyfarfod 4 Tachwedd 2014**

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Bronwen Brooks – CBM
(Cadeirydd)
Frances Beecher – Cymorth
Y Cynghorydd Susan Elsmore –
Caerdydd
Mike Ingram – CBM
Jane Thomas - CDC
Jeff Gooch – Cymorth
Helen Jones – CIC
Mark Sheridan - CIC

Phil Richardson - CIC
Dr Siân Griffiths – Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Meredith Gardiner – Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Donna Lemin – Llywodraeth Cymru
Karen Price – Llywodraeth Cymru
Neil Sutcliffe – CDC
Pam Toms – CBM
Sarah Capstick – CDRh (Cofnodion)

Ymddiheuriadau:

David Bebb – Y Gwasanaeth Prawf
Ceri Meloy – Cymorth
Chris Maggs (CrM) – Bwrdd Cynghori
Cenedlaethol Cefnogi Pobl

Eitem agenda	Cam Gweithredu
<p>1. Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau am absenoldeb a datgan buddiannau</p> <p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, yn enwedig Meredith Gardiner o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef olynydd Siân Harrop-Griffiths, sydd wedi symud i Fwrdd Iechyd arall.</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau cyn y cyfarfod.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant. SE – gofynnodd a oedd angen i'r holl ddarparwyr ddatgan buddiant o ran y modelau ar gyfer toriadau ariannol yng Nghaerdydd.</p> <p>Esboniodd FB a MS y rhoddir mandad i'r cynrychiolwyr drwy'r fforwm darparwyr, a bod rhaid iddynt gynrychioli barn y fforymau hynny. Os oes angen i gynrychiolwyr y darparwyr a'r landlordiaid ddatgan buddiant, yna byddai angen i'r Awdurdod Lleol wneud hynny hefyd gan ei fod yn ddarparwr gwasanaeth. Os yw'r trafodaethau'n ymwneud â chynllun penodol, y drefn yn y cyfarfodydd blaenorol oedd y byddai datganiad o fuddiant yn cael ei wneud a byddai'r unigolyn yn gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem agenda honno.</p>	
<p>2. Cofnodion a Materion sy'n Codi</p>	

<p>Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau i Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2014.</p> <p>Cymeradwywyd y cofnodion yn unfrydol.</p> <p>SE – Mae Swyddfa Gabinet Caerdydd wedi cysylltu sawl tro i drefnu cyfarfod rhwng SE a BB.</p> <p>BB – Cadarnhaodd fod cais am gyfarfod wedi dod i law, ac mae Swyddfa Gabinet y Fro wrthi'n aros am ymateb a dyddiadau posibl gan Gaerdydd.</p> <p>PT – Cadarnhawyd cyllid ar gyfer swydd y CDRh hyd at fis Mehefin 2015.</p> <p>Cam Gweithredu Cynnal cyfarfod rhwng Aelodau Cabinet y ddau Awdurdod Lleol.</p>	<p>SE / BB</p>
<p>3. Adroddiad y CDRh i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, gan gynnwys y cynllun gwaith a hysbysiadau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dosbarthwyd adroddiad y CDRh a'r cynlluniau gwaith cyn y cyfarfod, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>SC – Cafwyd llawer o ohebiaeth, sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, ers y cyfarfod blaenorol. Bu oedi o ran cylchlythyr y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (y Pwyllgor) gan fod erthyglau wedi'u cyflwyno'n hwyr ac oherwydd ymrwymadau gwaith eraill. Dylai'r cylchlythyr fod ar gael erbyn diwedd Tachwedd.</p> <p>DL – Mae Steve Lynch wedi ymuno â thîm Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru fel Rheolwr Llywodraethu. Bydd yn gyfrifol am ymdrin â'r 3 Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a hefyd yn gyfrifol am yr 'ystorfa'. Penodwyd DL i swydd barhaol, ac maent yn dal i fod wrthi'n penodi dadansoddwr data. Cymeradwywyd y dadansoddiad o ganlyniadau a'r dadansoddiad o'r cynllun gwariant i'w rhyddhau fel dogfennau gweithio, a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yfory.</p> <p>Camau gweithredu Cyhoeddi cylchlythyr y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar ffurf electronig erbyn canol/diwedd Tachwedd 2014</p> <p>Cyhoeddi'r dadansoddiad o ganlyniadau a'r dadansoddiad o'r cynllun gwariant fel dogfennau gweithio.</p>	<p>SC</p> <p>DL</p>
<p>4. Amllder cyfarfodydd yn y dyfodol o fis Ionawr 2014 ymlaen</p> <p>Dosbarthwyd papur gyda'r agenda yn trafod manteision ac anfanteision parhau i gynnal cyfarfodydd bob deufis neu newid i gyfarfodydd chwarterol.</p> <p>BB – Gan fod toriadau ariannol ar ddod a bod angen trafod hynny, byddai'n well cadw at y drefn bresennol o gynnal cyfarfodydd bob deufis.</p> <p>FB – Mae angen gwneud penderfyniadau strategol allweddol, felly mae angen parhau i gynnal cyfarfodydd bob deufis.</p> <p>SE – Gellir cyflawni mwy drwy gyfarfod yn llai aml. Mae'r papur yn dangos</p>	

<p>bod y manteision a'r anfanteision yn gwrthbwysu'i gilydd i raddau helaeth. Cytunwyd y dylid parhau i gynnal cyfarfodydd bob deufis am y chwe mis nesaf.</p> <p>Cytunwyd y bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn ailystyried y penderfyniad yng nghyfarfod mis Mawrth er mwyn penderfynu pa mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd ar ôl cyfarfod mis Mai.</p> <p>Cam Gweithredu Pennu dyddiadau cyfarfodydd mis Mawrth a mis Mai a dosbarthu'r manylion.</p> <p>Caiff amllder cyfarfodydd yn y dyfodol ei ychwanegu at agenda cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.</p>	<p>SC</p> <p>BB/FB/SC</p>
<p>5. Y newyddion diweddaraf am wasanaeth byw â chymorth gwasanaeth Anableddau Dysgu Caerdydd</p> <p>Dosbarthwyd papur cyn y cyfarfod.</p> <p>NS – Mae'r broses ar y cam Holiadur Cyn-gymhwysu. Os oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau, gellir cofnodi ac ymateb iddynt yn ysgrifenedig.</p> <p>MS – a fydd y gymhareb 50/50 o ran ansawdd/pris yn gymhareb safonol a ddefnyddir ar gyfer yr holl waith comisiynu yn y dyfodol? JT – Na, caiff y gymhareb ei phennu fel rhan o bob proses gaffael. FB – A oes unrhyw feini prawf o ran sut y caiff y gymhareb ei phennu? JT – 30/70 yw'r gymhareb arferol, felly mae hyn yn gosod mwy o bwyslais ar ansawdd.</p>	
<p>6. Y newyddion diweddaraf gan yr Awdurdod Lleol: gan gynnwys manylion toriadau ariannol posibl</p> <p>Dosbarthwyd papurau gyda'r agenda ac mewn neges e-bost ar wahân cyn y cyfarfod.</p> <p>Rhoddodd PT y newyddion diweddaraf ar lafar ers diweddariad Mehefin – Hydref 2014 gan Fro Morgannwg. Yna soniodd PT am y broses a ddefnyddiwyd i ystyried rheoli unrhyw doriadau i gyllid cefnogi pobl, lle y gellid gwneud y toriadau arfaethedig, yn ogystal â phenderfyniadau o ran blaenoriaethau comisiynu.</p> <p>DL – Pa ardaloedd a gwmpesir gan y Grŵp Cynllunio Lleol a phwy yw aelodau'r grŵp hwnnw? PT – Grŵp lleol ar gyfer Bro Morgannwg yn unig ydyw. Daw aelodau'r grŵp o adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Fro, y Gwasanaeth Prawf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Trydydd Sector (gydag aelodau wedi'u henwebu o blith Fforwm Tai a Digartrefedd y Fro). Ml yw cadeirydd y grŵp.</p> <p>Rhoddodd NS y newyddion diweddaraf ar lafar am ddiweddariad Mehefin-Hydfref 2014 gan Gaerdydd, gan gynnwys y newyddion bod proses dendro lwyddiannus wedi'i chynnal ar gyfer y project anghenion cymhleth, a bydd yr uned, sydd â 6 gwely, yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Llofnodwyd a dychwelyd 22 o gontractau, gyda 12 yn weddill ar hyn o bryd.</p>	

BB – A oes unrhyw rheswm pam fod contractau a lofnodwyd heb eu dychwelyd?

NS – Mae'n ofynnol gosod sêl y Cwmni ar y contract, ac mae hyn yn cymryd amser i rai darparwyr oherwydd mae'n bosibl bod angen anfon y contract at y Cadeirydd neu'r Bwrdd i wneud hynny. Bydd yr adran gyfreithiol yn ysgrifennu at bawb sydd heb dychwelyd eu contractau yn fuan.

Cyflwynodd JT bapur Caerdydd ar y prif themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad, ac ymddiheurodd am y cyfnod ymateb byr. Mae'r papur yn cynnwys rhai sylwadau enghreifftiol a'r hyn a wna'r Awdurdod Lleol yn sgîl y sylwadau hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd yn rhagweithiol, gan ganolbwyntio ar wasanaethau 24 awr, unedau camu ymlaen a llwybrau gwasanaeth. Mae hyn ar ddiwedd cam un, bydd cam dau yn ystyried sut bydd y cynigion yn effeithio ar bob project/cynllun yn unigol, a bydd y Cyngor yn ysgrifennu at y darparwyr gyda manylion eu projectau unigol. Roeddem wedi bwriadu aros am ffigurau cyllideb dangosol Llywodraeth Cymru i roi manylion mwy cywir, ond rydym o'r farn na allwn oedi ymhellach. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r darparwyr yn unigol, neu fe'u gwahoddir i sesiynau i roi adborth iddynt ar yr effeithiau posibl.

FB – Roedd Caerdydd yn barod iawn eu cymwynas drwy alluogi'r holl ddarparwyr i gyfarfod cyn y cyfarfod ymgynghori. Roedd y cyfarfod gyda Chaerdydd yn ddi-stŵr, ond roedd cyfarfod y darparwyr ymlaen llaw yn fwy bywiog. Gofynnodd y darparwyr i gynrychiolwyr y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gyflwyno nifer o faterion yn y cyfarfod hwn.

- Nid oedd y darparwyr o'r farn bod cynllun strategol wedi'i lunio, gan nad oedd unrhyw ystyriaeth o'r effeithiau ar wasanaethau.
- Roedd pryderon mai dim ond y gwasanaethau sydd â'r adnoddau ariannol mwyaf fydd yn gallu goroesi.
- Awgrymwyd y dylid ailystyried y gwaith o ran perthnasedd, er mwyn gweithredu'r toriadau ar sail perthnasedd mwy strategol, er mwyn osgoi colli gwasanaethau o berthnasedd strategol fel canlyniad nas rhagwelwyd.
- Dylid defnyddio adolygiadau gwasanaeth.
- Mae angen datblygu model mwy soffistigedig, yn hytrach na chlystyru gwasanaethau gyda'i gilydd, sy'n anwybyddu'r anghenion cymhleth.
- Tybir bod y cyfraddau a awgrymwyd yn effeithio'n anghymesur ar rai darparwyr Gyda rhai heb ddim toriadau ac eraill yn wynebu toriadau o hyd at 30%.
- Mae'r darparwyr wedi gofyn am Asesiad o Effaith y cynigion ar Gydraddoldeb.
- Mae'r darparwyr yn cytuno bod angen mynd i'r afael â'r amrywiadau anferth o ran prisiau, ond mae'r drefn tair haen gyfredol yn rhy gyfyngol.
- Bydd yr awgrymiadau cyfredol yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen.

MS – Ceir ymwybyddiaeth fod y toriadau yn anorfod a bod rhaid rheoli'r broses. Y fethodoleg sy'n peri pryder i ni. Tybiwyd fod y strwythur 'Capio' yn rhy wastad ac yn ailadrodd camgymeriadau ymgais gyntaf Llywodraeth Cymru i bennu tariffau, cyn iddynt gael eu hailbennu i adlewyrchu

cymhlethdod y cynllun. Er enghraifft, mae projectau Awdurdod Iechyd Taf a oedd ar y tariff sylfaenol yn trosglwyddo i'r drefn gapio, heb fawr o effaith. Nid yw'r rheini a oedd yn derbyn y cyfraddau uwch i adlewyrchu gwaith ychwanegol, megis gweithio gyda phlant, yn trosglwyddo. Os yw'r projectau hyn i bobl sydd â lefel uwch o anghenion â pherthnasedd strategol i Gaerdydd, yna byddai angen adolygu'r model neu caiff gwasanaethau o'r fath eu colli.

JT – Caiff yr effeithiau eu hystyried fel rhan o gam dau.

MS – Mae angen rhagor o fandiau er mwyn gallu nodi gwahaniaethau.

JT – Mae rhai cynlluniau yn ddrutach o lawer, felly mae angen i ni ystyried yr elfen gwerth am arian i gychwyn fel y'i nodwyd yng Nghynlluniau Llywodraeth Cymru. Y cam nesaf yw'r manylion mwy trwyadl ac effeithiau posibl hynny ar ddarparu gwasanaethau.

MS – Mae angen cynnal trafodaeth gyffredinol ynghylch hyn ar lefel strategol. Mae gan rhai cynlluniau gostau uwch gan eu bod yn cynnig gwasanaethau ychwanegol. Mae hon yn llwybr a dramwywyd yn fynych o'r hen system dariffau, lle roedd y rheini a oedd yn darparu gwasanaeth sylfaenol yn gallu addasu'n hawdd i'r swm a gapiwyd, ond roedd y gwasanaethau mwy cymhleth yn cael eu cosbi, ac yn wynebu'r perygl y gellid tybio eu bod yn annichonadwy.

JT – Er y gall fod yn llwybr a dramwywyd yn fynych yn ystod cyfnodau ffyniannus, nid felly ydyw ar adegau o doriadau ariannol.

FB – Mae angen ailystyried perthnasedd strategol y gwaith. Os bydd Caerdydd yn dewis gwneud cynllun yn annichonadwy drwy bennu'r capiau hyn, caiff hyn sgîl effeithiau. Sut y bydd hyn yn cydblethu â chynllun strategol Caerdydd wrth fynd ymlaen? Rydym yn rhagweld rhagor o doriadau'r flwyddyn nesaf. A fydd aildendro yn torri'r cap ymhellach (gan gyfyngu ar gwmpas gwasanaethau) neu'n lleihau nifer yr unedau? Mae angen gwneud y penderfyniadau hynny ar lefel strategol. Mae'r darparwyr am wybod beth yw'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau o fewn pob band.

JT – Nid oedd darparwyr wedi codi unrhyw un o'r pryderon hyn yn y cyfarfod na'r adborth ysgrifenedig.

HJ – Eglurwyd yn y cyfarfod darparwyr nad oedd gan unrhyw un o gynrychiolwyr y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fandad i gytuno ar y fethodoleg ar sail y manylion a roddwyd hyd yma.

JT – Cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

MS – Fel cynrychiolwyr y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol mae'n rhaid i ni gytuno ar y dulliau gweithredu. Ni ellir cytuno ar y capiau sy'n cael eu hawgrymu ar hyn o bryd.

SE – A oes angen i'r Pwyllgor gytuno ar y dull gweithredu?

Y Pwyllgor – Ie (gan lawer o bobl yn yr ystafell).

FB – Roedd Nic o Cymorth yn bresennol yn y cyfarfod darparwyr fel arsylwr annibynnol, a rhoddodd ymateb ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Cadarnhaodd yr holl ddarparwyr a oedd yn bresennol eu bod wedi cael papurau gan Caerdydd. Gofynnwyd iddynt a oeddent yn deall y dull gweithredu arfaethedig, a chadarnhawyd eu bod yn deall. Yna gofynnwyd i gynrychiolwyr y Pwyllgor ddod â phethau penodol i gyfarfod y pwyllgor i'w trafod, sef yr hyn rydym yn ei wneud heddiw.

JT – Beth fyddai'n digwydd pe bai'r Pwyllgor yn gwrthod y fethodoleg?

DL – Byddai'n cael ei chyfeirio at Ceri Breeze yn Llywodraeth Cymru.

Ydym ni ar y cam hwnnw?

FB – Nid ydym ar y cam hwnnw eto, gan ein bod yn dal i gynnal trafodaethau. Codwyd pryderon o ran y gweithgareddau y gellir eu caniatáu. Mae Caerdydd wedi rhestru'r eitemau anghymwys ond nid yw'n gysylltiedig â chyllid y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl y cânt eu mesur yn ei

<p>herbyn. Mae'r contractau â'r darparwyr yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau, felly caiff hyn ei ystyried yn gam gwag ac mae angen ei ailystyried.</p> <p>JT – Nid yw'r ffaith bod rhywbeth yn cael ei ganiatáu yn golygu bod yn rhaid i ni ei ariannu. Yn y papur adborth rydym wedi dweud y byddwn yn adolygu'r disgrifiadau ar sail y sylwadau a gafwyd fel rhan o gam dau, a bydd hynny'n rhan o'r ymgynghoriad hwnnw.</p> <p>DL – Ymddengys fod dwy broblem, un yw'r pryderon o ran cymhwysedd a'r llall o ran gwasanaethau ychwanegol.</p> <p>FB – Mae'r darparwyr yn pryderu oherwydd bod diffyg methodoleg glir. Mae'n wych i ddweud bod gan bopeth perthnasedd strategol. Mae'r sefyllfa gyfredol yn golygu y gallai rhai darparwyr bach gau, felly gellid colli projectau sydd â pherthnasedd strategol.</p> <p>JT – Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth ar sut y datblygwyd y ffigurau.</p> <p>MS – A ellid cynnal y trafodaethau arfaethedig, rhannu manylion sut y datblygwyd y ffigurau, a dwyn ymlaen y papurau diwygiedig?</p> <p>JT – Mae Caerdydd eisoes wedi oedi cyflwyno'r mater gerbron y Cabinet tan fis Ionawr, felly gellid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Byddwn yn rhoi manylion ychwanegol yn y fethodoleg. Byddwn hefyd yn cyfarfod â'r holl ddarparwyr yr effeithir arnynt ac yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor.</p> <p>FB – Mae llawer o'r problemau a oedd yn bodoli pan gyflwynwyd y Grant Refeniw Cefnogi Pobl yn bodoli o hyd.</p> <p>JT – Nid ydym wedi cael ymateb i ddweud bod unrhyw un yn anghytuno â'r fethodoleg.</p> <p>FB – Roedd pawb yn cytuno bod rhaid i bethau newid, ond codwyd pryderon y gellid achosi'r un hen broblemau. Gan hynny mae angen ystyried beth yw'r gwasanaethau ychwanegol sydd wedi cynyddu costau cynlluniau. Yn ogystal, mae angen ailystyried gweithgareddau Cymwys/Anghymwys.</p> <p>JT – Mae angen i ni symud ymlaen i'r cam nesaf. Ni fyddwn byth yn cael consensws.</p> <p>MS – Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar y fethodoleg yn hytrach na'n cytuno ar y toriadau.</p> <p>FB – Yr Awdurdodau Lleol sy'n penderfynu manylion y toriadau. Codwyd pryderon y gallai hynny arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd.</p> <p>BB – A fydd y Pwyllgor yn anfon ymateb ffurfiol i'r darparwyr?</p> <p>FB – Bydd y cynrychiolwyr yn rhoi'r newyddion diweddaraf yn ysgrifenedig drwy Cymorth a'r CIC.</p> <p>JT – Byddwn yn cyhoeddi'r fethodoleg a ddiweddarwyd gyda'r manylion ychwanegol cyn gynted â phosibl.</p> <p>DL – A fydd yn bosibl cynnwys amserlenni manylach?</p> <p>JT – Mae'n bosibl y gellid penderfynu na allwn fforddio gwasanaeth yn y dyfodol, ond byddai hynny'n benderfyniad ystyriol yn seiliedig ar ganfyddiadau cam dau a thrafodaethau pellach.</p> <p>HJ – Gallai hyn arwain at sgîl effeithiau ar wasanaethau statudol eraill, os caiff gwasanaethau lefel uwch eu colli o ganlyniad i hynny.</p> <p>JT – Caiff ychwanegiadau eu gwneud i'r amserlen a'r fethodoleg, a chaiff y ddwy eu dosbarthu. Caiff y papurau i sefydliadau unigol eu hanfon allan cyn gynted â phosibl hefyd. Ni fydd y rhain yn cynnwys y ffigurau manwl gywir oherwydd nad oes gennym y ffigurau dangosol Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>NS – A oes unrhyw syniad o ran pryd y cawn y ffigurau dangosol?</p> <p>KP – Mae'r Gweinidog wrthi'n penderfynu ar y mater ar hyn o bryd.</p> <p>BB – A wnewch chi ddweud wrth y Gweinidog ar ran y Pwyllgor y byddem yn gwerthfawrogi cael penderfyniad a chael y ffigurau cyn gynted â phosibl.</p>	
---	--

<p>KP – Cadarnhawyd hynny. DL – Mae gan bob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol bryderon tebyg. JT – Byddai cael y ffigurau'n gynt yn galluogi cynllunio trefniadau ariannu pontio hefyd. DL – Mae cynlluniau gwariant, canlyniadau, adolygiadau ac ati oll yn ychwanegu at y sail dystiolaeth sy'n hanfodol o ran penderfyniadau gwariant. Mae'r Gweinidog Cyllid, Prif Weinidog Cymru yn ogystal â'n Gweinidogion ni yn awyddus i gael y dystiolaeth.</p> <p>Camau Gweithredu Caerdydd i gysylltu â'r holl ddarparwyr sydd heb lofnodi a dychwelyd y contractau.</p> <p>Caerdydd i rannu methodoleg fanylach, gan gynnwys amserlenni a manylion ynghylch sut y datblygwyd y capiau gyda'r Pwyllgor.</p> <p>Caerdydd i ddechrau cam 2 y broses, drwy ysgrifennu at bob darparwr yr effeithir arnynt a chynnal cyfarfod i gael gwybod sut y byddai toriadau ariannol yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.</p> <p>Adolygu gweithgareddau cymwys fel rhan o weithgareddau cam 2.</p> <p>Swyddogion Llywodraeth Cymru i roi adborth ar yr angen i roi'r ffigurau dangosol i'r Awdurdodau Lleol ar frys.</p>	<p>Adran gyfreithiol Caerdydd</p> <p>JT / NS</p> <p>JT / NS</p> <p>Caerdydd</p> <p>KP / DL</p>
<p>7. Gwybodaeth Alldro Ebrill – Medi 2014</p> <p>Dosbarthwyd y ddogfen excel Alldro gyda'r agenda cyn y cyfarfod.</p> <p>Cymeradwywyd y ddogfen alldro.</p> <p>DL – Bydd y trosolwg o'r holl gynlluniau gwariant, pan gaiff ei gyhoeddi, yn cynnwys prisiau cyfartalog unedau ac ati. FB – Mae'n anodd craffu ar y wybodaeth alldro ar hyn o bryd. DL – Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater o gymharu taliadau rheoli. Caiff yr hyn sydd wedi'u cynnwys yn y taliadau rheoli, yn ogystal â maint y taliadau hynny, eu hystyried. HJ – Bydd gan sefydliadau llai o faint ganran uwch o daliadau rheoli na sefydliadau mwy o faint. Gall ddibynnu ar ba golofn y'u rhestrir ynddi gan gyfrifwyr unigol hefyd. FB – Mae angen sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran yr hyn sy'n cael eu cynnwys yn y taliadau rheoli a'r hyn y gellir eu cynnwys yn y costau hynny. DL – Mae Sheilah wrthi'n llunio'r fanyleb ar gyfer y gwaith ymchwil ar y taliadau rheoli. MS – A all y tendr gynnwys y bobl y dylid cyfweld â hwy fel rhan o'r adolygiad. Mae'n bwysig cynnwys yr adrannau cyllid. JT – Mae'n ddiddorol bod y pwyslais ar daliadau rheoli yn hytrach na faint a</p>	

<p>gaiff ei wario ar ariannu gwasanaethau. Pan fyddwch yn prynu rhywbeth o'r siop, rydych yn prynu'r cynnyrch, ac nid yw costau'r gwasanaethau cefn swyddfa yn berthnasol, rydych yn canolbwyntio ar y cynnyrch ei hun.</p> <p>FB – Dylid canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnir gan y gwasanaethau, nid dim ond nawr ond o ran sefyllfa cyn-ddefnyddwyr gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.</p> <p>PT – Sut bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu darparwyr bach a darparwyr tra-leol?</p> <p>DL – Mae angen pennu canllawiau clir o ran yr hyn sy'n dderbyniol i'w cynnwys yn y costau rheoli a'r hyn sydd ddim yn dderbyniol i'w cynnwys yn y costau hynny, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb.</p> <p>Camau Gweithredu Caiff y wybodaeth alldro ranbarthol a gymeradwywyd ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru</p>	<p>SC</p>
<p>8. Newyddion diweddaraf y grŵp gorchwyl a gorffen pobl hŷn</p> <p>Dosbarthwyd y papurau gyda'r agenda.</p> <p>Rhoddodd HJ drosolwg cryno yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y grŵp, gan gynnwys cyfarfod darparwyr gwasanaethau pobl hŷn a fu'n ystyried effeithiau'r newid o wasanaethau ar sail tendr i wasanaethau ar sail anghenion.</p> <p>Roedd dau bwynt i'w trafod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ehangu'r grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn ei alluogi i fonitro cynnydd yn erbyn yr amserlen. 2. Caniatâd i ymgynghori ar yr amserlen ddrafft ledled y rhanbarth. <p>Cytunwyd ar y ddau fater hyn.</p> <p>Cam Gweithredu Ehangu cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen i gynnwys monitro'r amserlen tan fod yr holl wasanaethau'n seiliedig ar anghenion.</p> <p>Ymgynghori ar yr amserlen ddrafft ledled y rhanbarth.</p>	<p>Y grŵp gorchwyl a gorffen</p> <p>Y grŵp gorchwyl a gorffen</p>
<p>9. Grŵp gorchwyl a gorffen RCP</p> <p>Dosbarthwyd papur gyda'r agenda.</p> <p>Cytunwyd i roi caniatâd i ymgynghori ar y cynllun drafft rhwng nawr a diwedd mis Rhagfyr.</p> <p>Cytunwyd ar y cwestiynau a argymhellir ar gyfer yr ymgynghoriad.</p> <p>Gellir gwneud sylwadau ar yr adran 'ein rhanbarth' fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.</p>	

<p>Cododd SC yr angen ar ran rhwydwaith y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol i ychwanegu rhywbeth am ganlyniadau. Ni awgrymwyd unrhyw ychwanegiadau eraill cyn ymgynghori ar y ddogfen.</p> <p>Rhoddodd MS ddiolch i SC am ei holl waith ar y gwaith papur ar ran y grŵp gorchwyl a gorffen.</p> <p>Camau Gweithredu Creu dogfen gwestiynau'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r cwestiynau y cytunwyd arnynt.</p> <p>Cyhoeddir cynllun gyda'r cwestiynau ymgynghori.</p> <p>Aelodau'r pwyllgor i roi adborth i'r adran 'ein rhanbarth' fel rhan o'r ymgynghoriad.</p> <p>Ar ôl yr ymgynghoriad, cytuno ar y ddogfen ddrafft derfynol a'i chyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.</p>	<p>SC</p> <p>SC</p> <p>Aelodau'r Pwyllgor</p> <p>Y grŵp gorchwyl a gorffen</p>
<p>10. Y Grŵp gorchwyl a gorffen canlyniadau</p> <p>Dosbarthwyd papur gyda'r agenda cyn y cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd i ohirio'r penderfyniad ar sut i gasglu canlyniadau'r gwasanaethau larymau er mwyn aros am ddarn o waith gan SPIN a Cymorth a allai newid sut y cânt eu casglu gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cytunwyd y gellir cynnal ymgynghoriad ar y cynllun gwasanaeth rhanbarthol a'r ddogfen adolygu ar ôl creu fersiynau drafft ohonynt. Ar ôl yr ymgynghoriad caiff y fersiwn ddrafft derfynol ei chyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol. Ni fydd y ddogfen yn barod i ymgynghori arni tan fis Rhagfyr.</p> <p>Rhoddodd SC ddiolch i SC am ei gwaith o ran hwyluso hynt y grŵp gorchwyl a gorffen.</p> <p>DL – Mae'r holl Awdurdodau Lleol wrthi'n paratoi'r canlyniadau ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi. Y gobaith yw y bydd y trefniadau adrodd wedi'u gwella gyda llai o fylchau yn y data. Dylai hyn fod yn llai llafurus na'r tro diweddar gan mai dim ond un cyfnod y mae angen cyflwyno adroddiad arno.</p> <p>Cyhoeddir y dadansoddiad o ganlyniadau fel dogfen weithio yfory, ac yna caiff ei chyhoeddi'n flynyddol. Mae angen canolbwyntio ar ddulliau meddwl cydgysylltiedig o ran y canlyniadau a sut y gellir eu defnyddio.</p> <p>MG – Mae'r Canlyniadau yn dangos effaith gwasanaethau.</p> <p>Cam Gweithredu Cynnal ymgynghoriad ar y cynllun gwasanaeth Rhanbarthol drafft a'r ddogfen adolygu unwaith eu bod yn barod.</p> <p>Llunio fersiynau terfynol y cynllun gwasanaeth rhanbarthol drafft a'r ddogfen ymgynghori a'u cyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.</p>	<p>Y grŵp gorchwyl a gorffen</p>

	Y grŵp gorchwyl a gorffen
<p>11. Cydweithredu, Arfer Da ac Arloesi</p> <p>Dosbarthwyd papur gyda'r agenda. Roedd y papur yn dangos dau ddull ymgysylltu a ddefnyddir ym Mro Morgannwg.</p> <p>BB – Roedd S'Not Man yn offeryn ymgysylltu gwych yn y digwyddiad i ddefnyddwyr gwasanaethau a gynhaliwyd yn yr haf. Casglwyd toreth o wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i wella gwasanaethau.</p> <p>FB – Mae angen i ni wella ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a cheisio meddwl am ffyrdd o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn dadleuon strategol. Yr her yw sut y gwnawn hynny. Mae angen llunio cynllun gwaith i wella hynny er mwyn sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei glywed yn fwy clir ar lefel strategol gan y Pwyllgor a hefyd o ran cael adborth ar wasanaethau.</p> <p>MG – Mae Bwrdd Iechyd y Brifysgol newydd lunio papur ar yr ymgynghoriad ar y rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gellir rhoi'r papur hwn i SC i'w ddsbarthu.</p> <p>Camau Gweithredu Dosbarthu papur Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar yr ymgynghoriad ar y rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol i aelodau'r Pwyllgor.</p>	MG/SC
<p>12. Unrhyw fater arall</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.</p>	
<p>13. Eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Ionawr 2015</p> <p>Cytunwyd ar yr eitemau agenda a restrwyd ar gyfer cyfarfod Ionawr 2015. Ni ychwanegwyd unrhyw eitemau eraill.</p> <p>Cam Gweithredu Pennu a dosbarthu agenda cyfarfod mis Tachwedd.</p>	BB/FB/SC

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

2pm, Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015
 Ystafell Armstrong, Tŷ Wilcox, Caerdydd